**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28/07/2022**

**Lleoliad: Zoom**

**Cadeirydd: Mark Isherwood AS**

**Ysgrifennydd: Megan Thomas, Anabledd Cymru**

**Siaradwyr: Marg McNiell, See Around Britain; Ben Cottam, y Ffederasiwn Busnesau Bach: Cyflwyniad ar yr adroddiad, "Busnes Heb Rwystrau" ("Business Without Barriers")**

**Ymddiheuriadau:** Mike Hedges AS, Peredur Owen Griffiths AS, Heledd Fychan AS, Altaf Hussain AS, Owen Williams, Cyngor Cymru i'r Deillion.

## 1 – Cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Materion sy'n codi:

- Argyfwng costau byw
    - Mae Morvenna wedi bod mewn cysylltiad â Ben Lake AS ynghylch yr argyfwng costau byw.
    - Mae'r llythyr y bwriadwyd ei anfon at y Trysorlys ym mis Medi wedi'i ohirio yn sgil gornest arweinyddiaeth y Ceidwadwyr.

Cynhaliodd y Cadeirydd bleidlais ynghylch a oedd cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod blaenorol.

Pleidleisiodd yr aelodau i gymeradwyo'r cofnodion

## 2 – Teyrnged i Vin West MBE gan Mark Isherwood AS

Talwyd teyrnged i Vin West, aelod o'r grŵp a fu farw yn gynharach eleni.

## 3 – Marg McNeill, See Around Britain

- Mae See Around Briatin yn fap rhyngweithiol ar-lein sy'n caniatáu i bobl anabl weld ffotograffau o wahanol leoliadau er mwyn gwirio eu hygyrchedd. Mae ar gael mewn sawl iaith, gan gynnwys Wcreineg.
- Gofynnwyd i'r Grŵp Trawsbleidiol ysgrifennu at unigolion sydd â phroffil uchel at ddibenion cefnogi See Around Britain.

Pwyntiau allweddol a ddeilliodd o'r cwestiynau a ofynnwyd:

- Problemau gyda mynediad at yr amgylchedd ffisegol

    - Er gwaethaf y ffaith bod deddfwriaeth wedi'i rhoi ar waith mewn perthynas â hygyrchedd adeiladau, mae’r broblem hon yn parhau. Awgrymwyd bod angen cynnwys y wybodaeth hon ar fyrddau croeso.

- Awgrymiadau ychwanegol
    - Gellid cael ap sy’n cynnwys system sgorio.
    - Mae’r bobl a’r lleoedd eraill y gellir anfon gwybodaeth am y wefan atynt yn cynnwys cynghorau tref, cynghorau sir ac enwogion.

**4 – Ben Cottam, y Ffederasiwn Busnesau Bach: Cyflwyniad ar yr adroddiad, “Busnes Heb Rwystrau” (“Business Without Barriers”)**

- Mae’r Ffederasiwn Busnesau Bach yn sefydliad sydd â thua 165,000 o aelodau ar draws y DU.
- Mae’n canolbwyntio’n bennaf ar entrepreneuriaeth a chyflogaeth. Mae’r pwysau sy’n gysylltiedig â COVID wedi ysgogi sgyrsiau ar anabledd, lles ac iechyd meddwl.
- Mae pobl anabl yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn busnesau llai.
- Mae’r sefydliad yn cyfathrebu â busnesau, gan nodi eu bod yn diystyru ystod eang o dalent os nad ydynt yn ceisio deall anghenion gwahanol gymunedau. Mae hyn yn arbennig o bwysig, gan fod argyfwng sgiliau yng Nghymru a’r DU. Felly, mae angen i fusnesau ddeall y materion hyn.
- Mae angen mwy o gymorth ar fusnesau, yn enwedig o ran anabledd.
- O ran y warant i bobl ifanc, mae'n arbennig o bwysig bod pobl ifanc anabl sydd am ddechrau eu busnesau eu hunain yn destun dealltwriaeth a chymorth.

Pwyntiau allweddol a ddeilliodd o’r cwestiynau a ofynnwyd:

- Mae hunangyflogaeth yn aml yn cael ei harddel fel datrysiad o ran cyflogi pobl anabl, ond nid yw hyn yn addas i bawb.
- Nid yw’r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd yn hygyrch
- Mae angen parhau i eirioli o blaid y model cymdeithasol o anabledd, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith gwahanol gyrff cyhoeddus a phreifat.
-

**5 – Y llythyr at y Gweinidog trafnidiaeth – trafodaeth grŵp**

- Mae cludiant yng Ngheredigion mewn argyfwng. Nid oes digon o fysiau ar gael. Mae hwn yn fater sy’n effeithio ar bobl anabl a phobl hŷn yn arbennig.
- Mae’r DVLA yn Abertawe mewn argyfwng. Nid oes digon o staff, ac mae llawer o geisiadau yn cymryd amser hir iawn i’w cwblhau. Mae gan aelod drwydded feddygol. Mae bygythiad y bydd y drwydded yn cael ei cholli, gan achosi ynysu. Sylwer: mae hwn yn fater nad yw wedi’i ddatganoli.
- Bathodynnau glas – mae pryder eu bod ond ar gael yn Lloegr. Mae bathodynnau glas ar gael yng Nghymru, ond mae problemau o ran y system fiwrocrataidd, ac o ran diffyg hygyrchedd y broses apelio. Cytunodd y Grŵp i gynnwys yr eitem hon fel eitem ar yr agenda mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**6 – Unrhyw fater arall**

Ymdrin â Niwroamrywiaeth yn y System Gyfiawnder

- Mae un barnwr yn y DU wedi disgrifio pobl awtistig fel pobl “annormal” nad oes modd iddynt brofi empathi yn ystod y broses ddedfrydu.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â sut y dylid brwydro yn erbyn ystrydebau negyddol am bobl niwrowahanol a phobl sydd â salwch meddwl yn y system gyfiawnder a thu hwnt.

Bil Hawliau Dynol

- Mynegwyd pryder am y Bil Hawliau Dynol yn San Steffan.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymateb, ac mae Grŵp Trawsbleidiol ar wahân yn ymdrin â’r pwnc hwn.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Dyddiad y cyfarfod nesaf: 29 Medi – mae’r dyddiad hwn bellach wedi’i newid i ddydd Gwener 21 Hydref, am 15:00.

**Camau gweithredu:**

- Camau dilynol o ran cysylltu ag unigolion a sefydliadau ynghylch cefnogi gwaith See Around Britain.
- Yr Ysgrifennydd i ysgrifennu llythyr at y Gweinidog trafnidiaeth ynghylch y materion a godwyd yn y drafodaeth grŵp.